

Newyddion Ysgol Bro Ddyfi,
Machynlleth

Ein Bro



LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

Gair gan y Pennaeth

Annwyl Rieni ac Ofalwyr

(categori 2B)

Hoffwn dynnu eich sylw at noson bwysig iawn yn hanes yr ysgol.

Opsiwn 2

Datblygu i ddod yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg Benodedig (naill ai ysgol Categori 1 neu 2A)

Nos Iau 7 Ebrill am 6.30yh cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y ddarpariaeth addysg yn Nyffryn Dyfi. Cynhelir y cyfarfod hwn yn neuadd yr ysgol. Mae Gweithgor Moderneiddio Ysgolion Uwchradd Powys wedi dod â nifer o gynigion ger bron. Nodaf hwy isod:

Ôl-16

Addysg Cyn 16

Opsiwn 1

Sefydlu ysgol newydd 'Syth Trwodd' wedi'i lleoli ar fwy nag un campws a fyddai'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed dan arweiniad un corff llywodraethu, un pennaeth, un tîm rheoli ac un tîm gweinyddol. Gellid cyflawni hyn drwy gyfuno Ysgol Bro Ddyfi ag ysgolion cynradd lleol.

Opsiwn 1

Byddai addysg Ôl-16 yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth newydd rhwng Cyngor Sir Powys a Choleg Powys.

Byddai'r ardal hon yn cael ei gwasanaethu gan 'Canolfan Ddysgu Ôl-16' yn y Drenewydd a fyddai'n cynnig amrywiaeth o bynciau academaidd a galwedigaethol. Byddai ystod lai o lefelau A, ar gael yn Ysgol Bro Ddyfi, a fyddai'n cynnwys pynciau cyfrwng Cymraeg.

Opsiwn 2

Sefydlu ysgol uwchradd newydd trwy gyfuno Ysgol Bro Ddyfi ag ysgolion uwchradd eraill ym Mhowys neu ysgol uwchradd tu allan i'r sir, er mwyn creu un ysgol wedi'i lleoli ar ddau gampws. Byddai hyn yn arwain at un corff llywodraethu, un pennaeth, un tîm rheoli ac un tîm gweinyddol a fyddai'n gyfrifol am yr ysgol newydd.

Opsiwn 2

Byddai addysg Ôl – 16 yn cael ei reoli gan un sefydliad, er enghraifft Coleg Powys neu sefydliad arall.

Byddai addysg Ôl-16 ar gael mewn 'canolfannau' ar draws y sir.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

Byddai'r ddau opsiwn uchod yn galw am adolygu'r modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y strwythurau newydd hyn:

Wrth edrych ar yr opsiynau mae angen holi nifer o gwestiynau yn y cyfarfod ynglŷn â dyfodol y chweched dosbarth yn yr ardal. Beth yw ystyr 'ystod lai o bynciau lefel A' ? Sut y bwriedir ateb anghenion y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg? Beth yw ystyr 'canolfan ddysgu' ac 'adain'?

Taer erfyniaf am eich cefnogaeth yn y cyfarfod pwysig hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Opsiwn 1

Parhau fel ysgol Ddwyieithog Ddwy Ffrwd

Dafydd M B Jones



Word from our Headteacher

Dear Parents and Carers,

I would like to draw your attention to a very important meeting which will affect the future of the school.

On Thursday 7 April at 6.30pm in the school hall, the Powys Secondary Modernisation Working Group will meet to discuss the future of the provision of education in the Dyfi Valley. The working group have proposed the following:

Pre – 16

Option 1

To establish a new 3-16 multi-sited 'All Through School' with a single governing body, one headteacher, one management team and one administration team. This would be achieved by federating Ysgol Bro Ddyfi with local primary schools.

Option 2

To establish a new secondary school by amalgamating with another Powys secondary school or a secondary school outside the county, in order to create one school situated on two sites. This would lead to a single governing body, one headteacher, one management team and one administration team responsible for the new school.

Welsh Medium

The above two options would require a review of the provision of Welsh medium education within these new structures:

Option 1

Continue as a Bilingual Dual Stream School (Category 2B)

Option 2

Become a Designated Welsh Medium School (Category 1 or 2A)

Post-16

Option 1

Post -16 Education would be managed by a new partnership between Powys County Council and Coleg Powys. This area would be served by a 'Post-16 Learning Hub' in Newtown that would provide a wide range of subjects, both academic and vocational. A smaller range of A levels, including Welsh medium subjects, could be provided at Ysgol Bro Ddyfi.

Option 2

Post-16 education would be managed by a single organisation such as Coleg Powys or another organisation. All Post-16 Education would be provided by this single organisation at 'Learning Hubs' across the county.

After studying the options I feel that we need to ask some questions in the meeting about the future of the sixth form in the area. What is meant by 'A smaller range of A levels'? How are we to meet the needs of Welsh medium students? What is actually meant by 'learning hub and spoke'? Your support would be appreciated at this important meeting.

Yours truly

Dafydd M B Jones



Adnoddau TGCh Newydd!

Gan Stalham-Taylor Autumn



By Stalham-Taylor Autumn

Ers cyrhaeddiad yr athro Technoleg Gwybodaeth newydd, Mr Tomi Rowlands, mae'r dechnoleg gyfrifiadurol yn Ysgol Bro Ddyfi wedi gwella yn sylweddol. Wedi cyrhaeddiad 10 gliniadur newydd ar gyfer defnydd y disgyblion, a'r wefan Ysgol newydd (www.broddyfi.co.uk <<http://www.broddyfi.co.uk>>) sydd yn cynnwys 'Home Access Plus' a 'Moodle', mae hi'n llawer haws i ddisgyblion wneud eu gwaith Ysgol yn yr Ysgol ac adref.

Gliniaduron:

Am fod prinder cyfleusterau cyfrifiadurol wedi bod yn yr Ysgol, mae 10 gliniadur newydd wedi eu cyflwyno i annog y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth o fewn yr Ysgol.

Bydd safleoedd di-wifr diogel ar gael o amgylch yr Ysgol er enghraifft yn y llyfrgell, yr Hyddgen, yr Asgell a'r ystafell Fideo Cynhadleddau. Mae hyn yn galluogi disgyblion fynd a gliniadur i unrhyw ystafell i astudio mewn tawelwch. Mae pob gliniadur wedi'i gysylltu â rhwydwaith yr Ysgol, felly mae pob disgybl yn gallu defnyddio'u ffeiliau.

Home Access Plus:

Ysgol Bro Ddyfi ydy'r unig Ysgol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru i ddefnyddio Home Access Plus.

Mae Home Access Plus yn galluogi disgyblion i weld eu ffeiliau Ysgol a defnyddio system ebost yr Ysgol o'u cartref. Gyda'u henwau defnyddiwr a'u cyfrineiriau, maent yn gallu lawr lwytho eu dogfennau Ysgol a gweithio arnynt adref.

Since the arrival of Mr Tomi Rowlands, the new ICT teacher, the computer technology within Ysgol Bro Ddyfi has improved dramatically. From the arrival of 10 new laptops for student use, the new Ysgol Bro Ddyfi website (www.broddyfi.co.uk) which contains Home Access Plus and the frequent use of Moodle, it is easier than ever for students to keep up with school work.

Laptops:-

Due to a shortage of computer facilities in Ysgol Bro Ddyfi, 10 new laptops have been introduced in order to encourage the use of ICT within the school.

Secure Wireless stations will be available around the school in areas such as the library, the Hyddgen, the Asgell and The Video Conferencing room. This allows students to sign out a laptop and take it to any room for studying. Each laptop is linked up to the school network, and therefore all students are able to access their own files.

Home Access Plus:-

Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales to have the privilege of the use of home access plus.

Home Access plus allows students to access their school files and the school email system from their homes. With the use of their school log in usernames and passwords, they are able to download their school documents and continue working on them at home.

I fewngofnodi i Home Access Plus Ysgol Bro Ddyfi

1. Ewch i www.broddyfi.co.uk

2. Gwasgwch ar y llun o adeilad glas. Mi ddylai hwn agor ffenestr newydd

3. Teipiwch eich enw defnyddiwr Ysgol ac eich cyfrinair

Efallai ni fydd Home Access Plus yn gweithio ar bob cyfrifiadur, ond 'Internet Explorer' yw'r gorau.

Moodle:

Meddalwedd dysgu electroneg yw 'Moodle' sydd yn galluogi athrawon llwytho gwaith a thasgau i ddisgyblion eu cwblhau. Pan maent wedi cwblhau'r tasgau maen nhw'n gallu llwytho'r gwaith i'r cyfrifiaduron yn yr Ysgol. Mae'r athrawon wedyn yn gallu cywiro a marcio'r gwaith yn electroneg gyda chanran a nodiadau.

I ddefnyddio 'Moodle' ewch i 'Google'

Chwiliwch am 'Moodle Ysgol Bro Ddyfi'

Gwasgwch y cyswllt cyntaf

Mewngofnodwch.

To log into Ysgol Bro Ddyfi Home Access Plus,

1. log onto: www.broddyfi.co.uk

2. Click on the picture of a blue building, which should open a new window.

3. Type in school username and password.

Home Access Plus may not work on all browsers, Internet Explorer is recommended.

Moodle:-

Moodle is electronic learning software which allows teachers to upload work and tasks for students to do, when students have completed the tasks they are also able to upload the completed work. Teachers are then able to electronically correct and mark the work with percentage and notes.

To use Moodle, go onto Google.

Search for Moodle Ysgol Bro Ddyfi

Click on the first link

Then log in.

Gwobrwyo ar ôl cyrraedd 150 clod!

Gwobrwyo ar ôl
cyrraedd 150 clod!

Gwobr:
camera digidol



Mwy o Lwyddiannau! More Success!

Llongyfarchiadau i Rhun Bleddyn, Llew Bleddyn a Lisa Waters ar ennill gwobrau cyntaf yng Nghystadleuaeth Cymdeithas Maldwyn ac i Beca Jones a Gwenno Griffiths ar ennill ail wobrau. Llongyfarchiadau arbennig i Rhun am lwyddo i ennill y wobr gyntaf am y gwaith gorau o blith yr holl waith Cymraeg a Saesneg gan ymgeiswyr Blwyddyn 7 & 8.



Congratulations to Rhun Bleddyn, Llew Bleddyn and Lisa Waters for winning first prizes in the Montgomeryshire Society Welsh Writing Competition and also to Beca Jones and Gwenno Griffiths for winning second prizes. Special congratulations to Rhun for winning first prize for the best piece of writing out of all the English and Welsh entries by Year 7 & 8 candidates.

Dyddiadau Pwysig! Important dates!

4.4.11	Noson Rieni Bl. 7/ Yr. 7 Parent's Evening
11.4.11	Profion Dosbarth Bl. 9 / Yr 9 Class Tests
15/4/11	Yr ysgol yn cau am wyliau'r Pasg / School closing for Easter holidays
9.5.11 - 13.5.11	Profion Dosbarth Bl. 7 ac 8 / Yr. 7 & 8 Class Tests
16.5.11 - 27.6.11	Arholiadau Allanol TGAU a Lefel A/AS / GCSE, A and A/S External Exams
9 neu 10.6.11	Mabolgampau'r Ysgol / School Sports Day
20.6.11	Arholiadau Bl. 10 / Yr. 10 Exams
14/07/2011	Yr ysgol yn cau am Wyliau'r Haf / School closing for Summer Holidays
18.8.11	CANLYNIADAU LEFEL A / AS RESULTS
19.8.11	Ysgol ar agor i ddelio gydag unrhyw ymholiadau / School open to deal with any enquiries
25.8.11	CANLYNIADAU TGAU / GCSE RESULTS
26.8.11	Ysgol ar agor i ddelio gydag unrhyw ymholiadau / School open to deal with any enquiries

Newid i'r dyddiad gwreiddiol / Change to original date

Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Congratulations to the following:

- Alex Watt
- Dewi Thomas
- Casey Hubbard
- Gwawr Jones
- Llewelyn Jones
- Sean Gates
- Marian Jones
- Danielle Vince
- David Coller
- Adam Herbert

Ar ôl llwyddo i gasglu 100 o bwyntiau clod, tynnwyd eu henwau ar hap ac enillwyd taleb Argos gwerth £10!

After succeeding to collect 100 merit points their names were pulled out of a hat and they won £10 Argos voucher each!



Pam Dewis Chweched Dosbarth Machynlleth?

Pam ddylwn i ddod yn ôl i'r Chweched Dosbarth? Wel, mae yna nifer o resymau pam ddylech chi fynychu'r Chweched Dosbarth. Y rheswm mwyaf pwysig yw mai cam ydyw rhwng Ysgol Uwchradd a Phrifysgol. Trwy astudio Lefel-A yn y Chweched Dosbarth, mae modd sicrhau eich bod yn cyrraedd y brifysgol rydych chi am fynd iddo ac yna ddilyn y gyrfa rydych yn ei ddewis. Mae pethau y gallwch eu gwneud yn y Chweched Dosbarth a all eich cynorthwyo wrth wneud cais i brifysgol. Er enghraifft, gallech ymuno â'r cyngor ysgol i fynegi eich barn, neu hyd yn oed ddod yn brif ddisgybl i helpu trefnu rhai o ddigwyddiadau'r ysgol yn ogystal â gosod esiampl i fyfyrwyr iau.

Mae Chweched Dosbarth Machynlleth wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd, ac mae o wedi tyfu i fod yr hyn y mae yn awr. Mae'r Chweched Dosbarth wedi denu myfyrwyr o amgylch Powys, ac nid yn unig o Fachynlleth. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael yn y Chweched Dosbarth, o amaethyddiaeth i'r Gyfraith, o Seicoleg i Ofal Plant. Mae gan yr ysgol athrawon profiadol a blaengar i addysgu pynciau Safon Uwch. Mae ambell i wyneb newydd yn yr ysgol, a fydd yn eich helpu i gyflawni canlyniadau Lefel-A uwch yn ein Chweched Dosbarth.

Mae'n bwysig i fyfyrwyr newydd gael syniad o sut beth yw bywyd yn y Chweched Dosbarth cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Dyna pam mae'r ysgol yn cynnig noson agored. Mae myfyrwyr ac athrawon presennol ar gael i siarad gyda'r rhieni a'r myfyrwyr sydd yn ymweld â'r ysgol a dangos yr Ysgol a'r pynciau amrywiol iddynt.

Pleidleisiodd rhieni i gael cyfleuster newydd gyda defnydd addysgol a chyhoeddus.

Mae Canolfan Hyddgen (sydd wedi'i leoli ar hen safle ffreutur yr ysgol) wedi profi ei hunan i fod yn rhan bwysig o addysg yn Ysgol Bro Ddyfi. Yn ogystal â'i rôl yn y gymuned, gall yr adeilad gael ei ddefnyddio gan y disgyblion. Yn ogystal ag ystafelloedd ar gyfer defnydd y cyhoedd, ac ar gyfer hyfforddiant, mae yna ystafell yn benodol ar gyfer defnydd myfyrwyr Ysgol Bro Ddyfi, lle maent yn gallu gwneud gwaith cyfrifiadurol neu hyd yn oed waith ysgrifenedig.



Dyma esiampl o'r gliniaduron os ydych yn penderfynu i'w defnyddio!

Mae athro TGCh newydd yr Ysgol, Mr Tomi Rowlands wedi cyflwyno'r defnydd o liniaduron a rhyngwyd di-wifr ar draws yr ysgol, fel bod myfyrwyr yn gallu gwneud gwaith cyfrifiadurol yn unrhyw le yn yr ysgol. Mae modd i'r disgyblion ddod a'u cyfrifiaduron eu hunain i astudio yn yr ysgol neu fynd â'r gliniaduron adref os nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur. Er bod rhain yn cael eu cadw yn yr Hyddgen, mae gan unrhyw un yn yr ysgol yr hawl i'w defnyddio.

Gan Lisa M Humphreys

Why choose to come to the sixth form?

Why should I come back to Sixth Form? Well, there are many reasons why you should attend Sixth Form. The most important reason is that it is the step between high school and university. By studying A-Level in Sixth Form, you can help make sure that you get to the university you want, and the career that you choose. There are things you can do in Sixth Form that can help you when applying to university. For example, you could join the school council and have your say, or even become head pupil to help organise school events and be a role model to younger students.

Machynlleth Sixth Form has changed over the last few years, and it has grown into the institution it is now. The Sixth Form has attracted students from around Powys, and not just from Machynlleth. There is a great variety of courses on offer for Sixth Formers, from agriculture to law, from psychology to childcare. The school has experienced teachers with previous experience of teaching A-Level subjects. There are a few new faces in the school, which will help achieve higher A-Level results for our Sixth Form.

It's important that prospective students have an idea of what life in Machynlleth Sixth Form is like. This is why the school offers open evenings where existing students and teachers are available to talk with parents and students who want to visit the school, and have a tour around the classrooms.

Parents voted for a new facility which would be for educational and public use. The Hyddgen Centre (which is situated on the site of the old school canteen) has proved

itself to be an important part of the education at Ysgol Bro Ddyfi. As well as its role in the community, the building can be used by pupils. As well as rooms for public use, and for training, there is a room specifically for the use of Ysgol Bro Ddyfi students, where they can do computer work or even written work.



Here is an example of our laptops if you decide to use them!

The school's new ICT teacher Mr Tommi Rowlands has introduced the use of laptops and wireless internet throughout the school, so that students can do computer work anywhere in the school, bring in their own computers to study in school, or even take the laptops home if they do not have access to a computer. While these are kept in Hyddgen, anyone in the school is entitled to use them.

By Lisa M Humphreys

Ein Taith i Planeteriwm, Lerpwl

Ar y 18fed o Ionawr aeth holl ddisgyblion blwyddyn saith, ar daith hir i Amgueddfa'r Byd i weld y Planeteriwm yn Lerpwl. Roedd rhaid codi'n gynnar, gan fod y bws yn gadael yr ysgol am saith o'r gloch!

Er bod Lerpwl yn ofnadwy o bell, roedd digon i ddiddanu pawb ar y bws, fel chwarae gemau cyfrifiadurol, rhannu lluniau a cherddoriaeth, darllen cylchgronau, heb anghofio siarad! Felly aeth y ddwy awr a hanner yn gyflym iawn.

Pan gyrhaeddodd Lerpwl, doeddwn methu credu fy llygaid! Roedd yr Amgueddfa yn enfawr, ac roedd yna adeiladau tebyg bob ochor iddo. Ar ôl i bawb ei heglu hi allan 'r bws, aethom i sefyll yn ein grwpiau, tu allan i'r Amgueddfa. Bob yn grwp aethom fewn, a rhoi ein bagiau a'n cotiau yn saff ar y raciau, cyn dringo'r holl risiau - blin-edig iawn, ac erbyn cyrraedd y top roedd fy nghoesau fel jeli!!

Cyn mynd i'r Planeteriwm ei hun, aethom o gwmpas yr arddangosfeydd gwahanol, rhai anifeiliaid, rhai i wneud a'r gofod a llawer mwy; roeddent yn werth i'w gweld.

Cyn pen dim, roedd pawb yn eistedd yn y Planeteriwm, yn aros yn amyneddgar i'r sioe ddechrau. Mewn chwinciad chwanen, roeddwn yn syllu fel barcud ar y planedau, y lleuadau a'r haul a'r ser sydd uwch ein pennau yn creu siapiau bob nos. Roedd y sioe mor ymlaciol, roedd rhai ohonom - heb enwi neb, bron a chwympo i gysgu!

Roedd hi'n amlwg fod pawb wedi dysgu llawer o bethau newydd am y gofod yn y Planeteriwm. Ar ôl gweld popeth, aethom lawr yr holl risiau i gael ein brechdanau. Mewn ychydig, roedd pawb wedi cael llond bol o fwyd, ac aethom allan o flaen yr Amgueddfa i dynnu llun, cyn i bawb fynd ymlaen i'r bysiau.

Cyrrhaeddodd noll yn yr Ysgol am tua ugain munud i bedwar, ac aeth pob un ohonom adref yn hapus, gyda llawer o wybodaeth oedd yn mynd i'n helpu ni yn ein gwersi Dysgwr Smart.

Mared Fflur Ingram 7 Cegir

Our visit to the Planetarium in Liverpool

On Tuesday the 18th of January, 7 Delyn went to the Museum of the World in the Planetarium in Liverpool. We left at 7 in the morning on the bus and arrived there at 10.00. When we got there, we split into 7 groups and went around the museum in these groups. First we went to see the Planetarium itself. We learnt about the Galaxy and the Solar System in which we live. There were some things which I already knew about and I learnt some new things. I really like learning about space. After we saw the Planetarium on the 5th floor we went down to the next floor where we saw the dinosaurs. We saw fossils, bones, woolly mammoths and lots of other prehistoric animals. I also liked learning about the dinosaurs.

Georgia Clarke 7 Delyn

We went to the Planetarium which is in Liverpool. It took us 3 hours to get there. The good things about the day was we saw a show of the stars, and many other things on other floors. I was very happy when I looked at the dinosaurs and I felt sad when we had to leave.

David Kohler 7 Delyn

The Planetarium was very good and it told us a lot of things about the planets and some things about the stars. It was a good day out and I had lots of fun.

Natalie Watson 7 Delyn

When we went to the Planetarium we sat and watched a presentation about space. We learnt a lot about space and the planets and we learnt about space crafts. It was an useful visit as we are studying space in Smart Learner. I really enjoyed it and I would go there again.

Tara Barghouti 7 Delyn

Trip Lerpwl / Trip to Liverpool

Trip Grŵp Celf a Dylunio i Lerpwl

Dydd Mercher 2il Chwefror aethom ni i Lerpwl. Gwnaethom ni gyd gyfarfod yn yr orsaf drenau am 5.45 yb! Cyrhaeddom ni Lerpwl am hanner awr wedi 9.

Pan gyrhaeddom Lerpwl aethom ni'n syth i Oriol Gelf Walker. Gwelsom waith Diana Dias-Leao. Roedd ei gwaith yn cynnwys-dillad wedi eu gwneud o wydr.

Yna cerddom ni i Ddoc Albert ac i am-gueddfa y Beatles. Gwnaethom dynnu lluniau yn y ddau le wrth edrych ar y dillad, yn enwedig dillad llachar y 60au, sef thema ein prosiect ni eleni.

Gwnes i fwynhau y diwrnod yn fawr iawn ac roedd yn brofiad gwych i ni gyd.

Siobhan Evans

Yn Lerpwl nes i fwynhau amgueddfa y Beatles achos ei fod yn ddi-ddorol. Wnes i fwynhau y diwrnod yn fawr.

Lowri Harris



Art and Design Trip To Liverpool

On Wednesday 2nd of February we went to Liverpool. We all met at the train station at 5.45 am! We arrived in Liverpool at half past nine.

When we arrived in Liverpool we went straight to the Gelf Walker Gallery. We saw Diana Dias-Leao's work. Her work consisted of clothes that were made from glass.

We then walked to Albert Dock and then to the Beatles Museum. We took pictures of both places while looking at the clothes, especially the bright 60's clothes, which is the theme for our project this year.

I really enjoyed the day and it was an amazing experience for us all.

Siobhan Evans

I enjoyed the Beatles Museum in Liverpool because it was interesting. I really enjoyed the day.

Lowri Harris

Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn brysur dros ben yn yr adran. Mae Blwyddyn 8 bellach wedi gorffen eu fideo am ddiogelwch ar yr we a Blwyddyn 9 yn gweld cyflwyniadau PowerPoint yn eu cwsg wedi iddynt wneud cymaint o waith ar anturiaethau'r ddraig! Buont yn ddewr dros ben yn cyflwyno eu gwaith o flaen yr dosbarth!

Mae'r clybiau TGCh yn brysur iawn hefyd efo amryw o wefanau yn cael eu creu gyda thema unigryw i bob un! Dylai rhain fod yn fyw ar yr we yn fuan iawn. Mae Sgiliau PhotoShop yn Hyddgen wedi mynd yn dda iawn hefyd gyda amryw o bosteri yn cael eu creu ar y thema Y Gymuned Leol. Bydd rhain yn cael eu cyflwyno i gystadleuaeth Sir yr Urdd.

Cofiwch:

Clwb TGCh Gwefannau: Pob Dydd Mawrth Amser Cinio, Yst 6
Clwb TGCh Photoshop yn Hyddgen
Pob Dydd Mercher (3:45-4:45)

BL10 ac BL11: Sesiwn gwaith cwrs OCR lefel 2 pob nos ar ôl ysgol gnewch yn fawr o'r cyfle i atgyfnerthu ei gwaith i ennill hyd at 4 TGAU!

Information Communication Technology Department

It has been a busy few weeks in the ICT department with Year 8 finishing their videos on internet safety and Year 9 going PowerPoint mad with their theme Dragon's pursuits. They were all very brave presenting their work in front of the class.

The ICT clubs are also busy with the website clubs making a wide range of websites for diffract hobbies, themes and of course football teams! These should come live on the internet soon. Photoshop skills have also been tested to their limits in Hyddgen every Wednesday. We are currently making a poster on the theme Our Community. This poster will be submitted in the County Eisteddfod competition.

Remember:

ICT Club, Websites: Every Tuesday lunchtime, Room 6

ICT Club, Photoshop: Every Wednesday 3:45-4:45 in Hyddgen

Year 10 & 11: Coursework "top up" sessions after school every day in the week. Take the chance to get up to 4 GCSE's in ICT.



Cyhoeddiadau/ Announcements



Software4Students™

Amazing offers - all students
Up to 90% off all software

www.software4students.co.uk

1. Log on to the website
2. Select your school or college
3. Order your software!

Office KASPERSKY Windows ANTIVIRUS NUAGE

Cynnig arbennig i blant a myfyrwyr yn ein hysgol ar gael ar wefan
www.software4students.co.uk

*Special offer for pupils and students of our school available on the website
www.software4students.co.uk*

gan gynnwys:

Includes:

- Microsoft Office 2010
- Microsoft Windows
- Adobe Photoshop

A llawer iawn mwy!

And much more!

Eisteddfod yr Urdd

Eisteddfod Genedlaethol
Urdd Gobaith Cymru
Abertawe a'r Fro
30/05 - 4/06/2011



Gŵyl i'r
teulu cyfan
A festival the whole
family can enjoy

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Prif Wyl Gelfyddydol Ieuencid Ewrop



Llywelyn



1af

Glyndwr



LUMEN

2il



Dewi



3ydd



EISTEDDFOD YSGOL BRO DDYFI 2011

Parhau gyda'n traddodiadau amhrisi-
adwy a wnawn ym Mro Ddyfi y
tymor hwn wrth i rod yr ei-
steddfodau droi un-
waith yn rhagor.

Wrth i'r ymarfer-
ion at yr Urdd
boethi, caf-
wyd egwyl
fer i fwyn-
hau eisteddfod
hwyliog a
chyffrous yr
ysgol ar
Fawrth y
4ydd. Bu'r
paratoad-
au'n frwd

wrth i'r dôn soniarus, yr awen lenyddol
a'r digrifwch pur ddod â hoe haeddian-
nol i'r dosbarthiadau gweithgar.

Talodd y gwaith caled ar ei ganfed wrth
i'r cystadlu brwd lenwi llwyfan Neuadd
yr ysgol gyda phawb yn ymroi i ddiwrn-
od hynod lwyddiannus. O'r unawdau i'r
meimio, o'r corau i'r dawnsio - roedd
rhywbeth at ddant pawb a braf oedd
gweld gwên ar wyneb y beirniaid: Mr
Aled Davies (Pentremawr), Miss Marged
Jones a Miss Ceri Meredydd.

Rhun Bleddyn o flwyddyn 8 gipiodd y
gadair am yr ail flwyddyn yn olynol a
dyma ei sylwadau ef ar y diwrnod:

*"Dydd Gwener, Mawrth 4ydd. Diwrnod
i'w gofio yn fy nghalendr i.
Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a chyst-*

*adlu brwd a'r gobeithion yn uchel i
Llywelyn- fy nhîm i. Roedd yn argoeli i
fod yn ddiwrnod prysur, unawd, meim,
a chôr.*

*Mwynheais nifer o gystadlaethau doniol
iawn- roedd gweld yr athrawon ar y
llwyfan yn ddoniol, i ddweud y lleiaf.
Druan o Mr Dafydd Jones- cafodd ei en-
wi sawl gwaith o'r llwyfan! Ar ddiwedd
y dydd, y tîm buddugol oedd Llywelyn,
er i Glyndŵr gipio'r wobr gyntaf yng
nghystadleuaeth y côr. I mi yn bersonol,
yr uchafbwynt oedd ennill cadair yr
eisteddfod. Ac wrth gwrs, diolch i'r
staff a helpodd i wneud yr eisteddfod
mor wych, yn enwedig Mr Llifon Ellis
am drefnu'r eisteddfod, Mr Tegid Ow-
en am wneud y gadair hyfryd, ac i
Mrs Llio James am gyfeilio a helpu
gyda'r cystadlaethau cerddorol."*

Diwrnod i'w gofio yn wir ac ategaf fy
niolch i bawb am eu cydweithrediad.
Am fwy o wybodaeth, lluniau a chan-
lyniadau'r dydd, ewch i wefan yr ysgol.

www.broddyfi.co.uk

Mr Llifon Ellis.



Ein chweched! / Our Sixth Form!

Heledd Mair Besent

Dewisais i ddod i'r Chweched Dosbarth ym Mro Ddyfi oherwydd roedd hi'n well gen i'r cyrsiau roedd yr ysgol hon yn eu cynnig. Pe bawn i wedi mynd i Goleg Meirion Dwyfor, fel nifer o fy ffrindiau o Dywyn, ni fuaswn wedi gallu dewis yr union bynciau oedd fwyaf at fy nant i. Un o'r pethau gorau am Ysgol Bro Ddyfi yw'r ffaith bod yr amserlen yn cael ei chynllunio o gwmpas eich dewisiadau chi. Dydyn ni ddim yn cael ein cyfyngu i focsys! Yma rwyf wedi llwyddo i astudio cymysgedd o bynciau amrywiol iawn ac mae'n ddigon posib na fyddwn i wedi gallu gwneud hynny mewn sefydliad arall. Ond y peth gorau am y Chweched Dosbarth yn Ysgol Bro Ddyfi yw'r cwmni a'r croeso a gefais pan ddes i yma. Mae 'na awyrgylch wych yma ac ar ben hynny mae'r adnoddau dysgu yn dda a cheir digon o gyfleoedd allgyrsiol



Chweched Ysgol Bro Ddyfi

Fe ddes i yma o Ysgol Penweddig yng nghanol fy rhymor cyntaf yn y Chweched Dosbarth! Efallai byddai rhai pobl yn dweud ei fod e yn rhywbeth

annoeth iawn i symud ysgol yng nghanol tymor, yn enwedig yn y Chweched dosbarth ond dw i'n sicr fy mod i wedi gwneud y penderfyniad cywir, a bod hwnnw wedi bod yn benderfyniad doeth.

Mae bod yn rhan o gymuned Bro Ddyfi wedi agor llawer o ddrwsau i mi, yn academiaidd ac yn allgyrsiol. Dw i wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn nifer helaeth o weithgareddau, yn amrywio o feirniadu mewn rhaglen deledu i berfformio ar lwyfan yr ysgol a llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

O dan arweiniad athrawon ymroddedig llwyddais i ennill graddau uchel yn fy arholiadau Uwch Gyfrannol y llynedd. Mae gen i felly sylfaen gadarn ar gyfer fy arholiadau Safon Uwch fydd yn eu tro, gobeithio, yn fy ngalluogi i gael mynediad i addysg uwch ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'n deg dweud bod y gymuned ym Mro Ddyfi yn un glos iawn, ond cymuned glos sydd yn derbyn pobl newydd i'w phlith.

Os wnewch chi roi rhywbeth i mewn i Ysgol Bro Ddyfi, yn sicr fe gewch chi rywbeth yn ôl.



Y Clwb Pyramid

Mae'r Clwb Pyramid yn gyfle da i aelodau'r Chweched Dosbarth gy-northwyo plant yn ysgolion cynradd y dalgylch i ymuno mewn gweithgared-dau amrywiol. Bwriad y clwb yw dat-blygu hyder plant cynradd.

Gwaith gwirfoddol yw'r gwaith yma ond mae'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn cael ei gyfrif ar gyfer y Fag-loriaeth Gymraeg sydd bellach yn cael ei gydnabod fel cymhwyster pwysig ar gyfer pobl ifanc sydd yn ymgeisio am fynediad i Addysg Uwch.

Rwyf wedi mwynhau'r gwaith gwir-foddol yn fawr iawn ac rwyf wedi dysgu llawer. Mae wedi bod yn bleser gweld y plant cynradd yn datblygu yn eu hyder o dan ein harweiniad ni. Yn sicr mae wedi bod yn waith gwerth ei wneud.

Rhodri
Evans



Gair gan ein Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Mae gan Chweched Dosbarth Ysgol Bro Ddyfi lawer iawn i'w gynnig i bobol ifanc sydd yn penderfynu astudio ymhellach. Mantais fawr ym Mro Ddyfi yw ei bod hi'n ysgol fach, ac felly dosbarthiadau bach sydd yn ei gwneud hi yn llawer haws i ddisgyblion ddysgu drwy gyfrwng mewn amgylchedd glos.

Mae'r ysgol yn le cartrefol, ble mae pawb yn gyrru mlaen, ac yn adnabod ei gilydd.

Yn ogystal â gweithio yn galed, mae digon o hwyl i'w gael hefyd! Cewch gyfle i wneud llawer iawn o wahanol bethau diddorol o fewn yr ysgol, er enghraifft ym mlwyddyn 12 mae prif ddisgyblion yn cael eu dethol er mwyn lleisio yr hyn sydd gan y chweched i'w gynnig i'r ysgol.

Mae hyn yn golygu trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau megis Plant Mewn Angen, Cancr y Fron, a Red Nose Day, trefnu eisteddfodau ysgol ac yn y blaen. Fel dirprwy brif ddisgybl ar hyn o bryd teimlaf fod hyn wedi rhoi hyder mawr i mi ar gyfer cyfweiliadau ar gyfer y coleg, ysgrifennu fy natganiad personol, ac mewn cymdeithasau tu allan i'r ysgol.

Mae ysgol Bro Ddyfi yn ysgol hapus, sydd â llawer i'w gynnig i

ddisgyblion sydd yn dymuno addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

**Eurgain Evans
Is-Cadeirydd, Cyngor Ysgol**

Looking back at my time here I can honestly say that I've really enjoyed myself, especially the time I've spent in the sixth form and I'll be sad to leave in the summer. You really get a sense of belonging at this school and we're really lucky to have such a good sixth form.

The facilities are great with the youth wing and Hyddgen. For such a small school the range of subjects is huge but class sizes are small putting the focus of learning on the individuals. The teachers are very supportive and respect you more, as a member of the sixth form.

If I where in your shoes and had to make my decision again I wouldn't hesitate to choose to study at Ysgol Bro Ddyfi sixth form.

**Iolo
Chairperson Bro Ddyfi School**



Ers mis Medi mae 14 clwb gwahanol wedi cael eu rhedeg. Yn ystod y tymor diwethaf gwelir clybiau newydd, megis lacrosse a bowls. Yn ystod tymor yr haf bydd mwy o glybiau newydd, fel golff, tenis, criced a syrffio. Mae'r sesiynau yn cael eu rhedeg yn ystod amser egwyl, cinio ac ar ôl ysgol. Cofiwch edrych ar y byrddau cyhoeddi 5x60 ar gyfer y newyddion diweddaraf am glybiau newydd ac amserlenni 5x60.

Mae disgyblion y chweched yn hanfodol bwysig i lwyddiant y clybiau 5x60 ac hoffwn ddiolch i: Jac Wyn Williams, Tomos Wyn Williams, Hari Wyn Williams, Lisa Waters, Zoe Fleming, Llion Davies, Daniel Johnson, Iestyn Williams, Rhodri Evans a Elen Evans am wirfoddoli a chynnal rhai o'r sesiynau.

Isod gwelir llun o'r clwb bowls. Buont yn chwarae gêm yn erbyn clwb bowls Severn Valley dros y mis diwethaf.



Isod mae tabl sy'n arddangos y nifer o sesiynau y mae disgyblion wedi cymryd rhan ynddynt hyd yn hyn. Cofwch fe fydd gwobrau am bresenoldeb 5x60 ar ddiwedd y flwyddyn!!

Blwyddyn	Enw	Nifer o weithiau
7	Malachi Taylor	33
7	= Jayden Mumford = Jarrow Trevelyan	25
8	Jade Jones	20
8	Sara Rees	17
9	Briony Rigby	12
9	= Kirsty Davies = Gwawr Jones = Jo Thomas	10
10	Sian Breese-Griffiths	16
10	Tirion Humphreys	13
11	Marc Evans	11
11	Chris Jones	10

Menter

Cawsom ni'r cyfle i greu busnes gyda Menter yr Iaith. Fi gafodd y swydd rheolwr prosiect. Roeddwn i'n gweithio gyda Lisa fflur, Tomos, Iestyn a Betsan. Ein syniad ni oedd gwneud sioe ffasiwn allan o ddefnyddiau ailgylchu. Enillon ni y rownd gyntaf. Felly cawsom ni'r cyfle i fynd ymlaen â'r sioe. Cawsom ni £400 i wario ar ein sioe.

Roedd y cyfle yn un arbenning. Pob nos Lun a nos Wener roeddem ni yn cynnal clybiau ffasiwn ar ôl ysgol. Yn y clybiau roedd y plant yn cael gwneud dillad eu hunain. Cawsom help gan Gynllunydd Ffasiwn dirgel. Roedd hyn yn gyfle gwych!

Roedd y sioe ffasiwn yn llwyddiant garw! Roedd Ffeil, S4C, Radio Cymru a Blue Peter wedi cysulltu gyda ni. Roedd ganddyn nhw ddiddordeb enfawr yn ein syniad. Roedd y siopau lleol yn ein helpu trwy roi gostyngiad i ni. Rhoddodd y siop Lodes ddi-

llad i ni eu defnyddio yn y sioe. Ar ôl y sioe cawsom wahoddiad i noson wobrwyo. Roedd hi'n noson grêt!

Roedd cael y cyfle yma yn un arbenning! Rwyf wedi dysgu gymaint! Yn sicr rwy'n fwy hyderus. Rwyf nawr yn gwybod sut mae cychwyn busnes newydd. Roedd rhaid i ni drefnu bws, y clybiau, y dillad a llawer mwy. Roedd yna lawer iawn o waith i'w wneud.

Ond roeddem ni yn gweithio fel grwp ac yn gwneud yn siwr fod pawb yn hapus! Roedd pawb yn y chweched dosbarth yn ddigon parod i helpu ni gyda ein sioe. Rwy'n teimlo ein bod ni wedi dod yn llawer iawn agosach fel ffrindiau nawr!

Roedd hyn yn gyfle arbenning. Cawsom ni gymaint o hwyl! Yn sicr fyswn i yn cymryd y cyfle yma eto i greu busnes. Mae'r cyfle yma wedi ein helpu ni gyda ein hastudiaeth ar gyfer y Fagloriaeth Gymraeg. Rydem ni fel grwp yn ddiolchgar iawn am y cylfe arbenning hwn!



Clwb Photoshop

Mae'r Clwb Photoshop wedi bod yn brysur dros ben yn creu posteri ar yr thema "Ein Bro" ar gyfer ei-steddfod yr Urdd.

Pob lwc yn y gystadleuaeth!

Photoshop Club

The Photoshop Club have been hard at work creating posters for the Urdd Eisteddfod. The theme was "ein bro" : our local community.

Good luck in the competition!

Clwb Gwefan



Mae'r clwb gwefan wedi bod yn brysur dros ben gydag amryw o wefanau yn fyw ar yr we! I'w gweld nhw ewch i:

www.broddyfi.co.uk > @broddyfi > intranet > Allgyrsiol (extra calucular) > Clwb TGCh

Website Club

The website club has also been busy putting their websites live on the internet! To see them go to:

www.broddyfi.co.uk > @broddyfi > intranet > Allgyrsiol (extra calucular) > Clwb TGCh



Ysgol Bro Ddyfi
www.broddyfi.co.uk

Gwefan Newydd! New Website!

Lawrlwytho Llyfryn Opsiynau Blwyddyn 9

Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth

Internet | Protected Mode: On



Canlyniadau'r Eisteddfod yr Urdd Eisteddfod yr Urdd Results



Unawd Merched BI 7,8,9 - 2ail Lliwedd Jones

Unawd Llinynnol BI 7,8,9 - 3ydd Dafydd Duggan

Deuawd BI 7,8,9 - 1af Liwedd Jones a Fflur Jones

Unawd Bechgyn BI 7,8,9 - 2ail Rhun Bleddyn

Unawd Cerdd Dant BI7,8,9 - 1af Lliwedd Jones

Parti Bechgyn BI7,8,9 - 1af Bechgyn Bro Ddyfi

Côr Cerdd Dant BI 7,8,9 - 1af Côr Cerdd Dant Bro Ddyfi

Côr BI7,8,9 - 1af Côr Bro Ddyfi



THEMA - Y Fro

Canlyniadau rhanbarth

Addysg Gorfforol

Mae disgyblion Ysgol Bro Ddyfi wedi cael blwyddyn lwyddiannus yn nhermau chwaraeon hyd yma.

Dyma ddau uchafbwynt o'r flwyddyn:

Tim rygbi o dan 16

Cafwyd perfformiadau anhygoel gan rai o'r chwaraewyr a wnaeth alluogi'r tim guro, Bala, Harlech, Tywyn a Dolgellau. Oherwydd y canlyniadau hyn, roedd y tim anegn Curo Botwnnog i ennill cynghrair Meirion a Dwyfor. Cychwynodd y gêm yn wael, gyda Botwnnog yn sgorio 2 gais yn yr hanner cyntaf. Ar hanner amser roeddem yn colli 12-0 a sylweddolodd y bechgyn eu bod llawer gwell tim ac roedd y bechgyn yn benderfynol o ennill. Dechreuodd yr ail hanner gyda chais i Fro Ddyfi, ond methwyd y trosiad oedd yn golgu ein bod angen dwy gais arall. Fe sgoriodd y bechgyn gais arall i ddod a'r sgor i 12-10, ond roedd angen un sgor arall. Enillodd Bro ddyfi y gêm 12 - 15. Gêm anhygoel i'w wyllo. Tim o dan 16 Bro Ddyfi Pencampwyr cynghrair Meirion / Dwyfor!

Eisteddfod ddawns

Ar brynhawn dydd Mercher yr unfed ar bymtheg o Fawrth yn Theatr Hafren Drenewydd, gwelwyd merched dawns Ysgol Bro Ddyfi yn caell llwyddiant ysgubol.

Y thema oedd Hip Hop/ Stryd/ Disco ac yn y categori grwpiau cafodd grwp "O! Merched Gwyllt" merched blwyddyn 7 drydydd gyda'u perfformiad gwych yn ogystal â grwp "Brotastig" merched o flynyddoedd 8 a 9 gyntaf, gan sicrhau y bydden nhw'n cynricholi'r Sir

yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe eleni. Hefyd, gwnaeth perfformiad y grŵp "Brotastig" nid yn unig ennill y wobwr gyntaf ond hefyd ennill tarian perfformiad gorau'r Eisteddfod Ddawns am eu perfformiad arbennig. Ar ben hyn oll, cafodd Jemma Hennighan ail a Lliwen Jones drydydd yn y categori unigol dan 15 a chyn ddisgybl Marged Jones yn ennill y wobwr dan 19 gyda Lisa Waters yn drydydd. Cystadlodd grŵp arall o Flwyddyn 7 - 'Calonnau Cymru' yn y gystadleuaeth i grwpiau dan 15, a 5 yn y gystadleuaeth unigol dan 15 a dwy dan 19 Llongyfarchiadau mawr iawn i'r merched am eu brwffrydedd, eu gwaith caled a'u llwyddiant!!

Llwyddiannau

Tim pêl-rwyd o dan 18 - Twrnament yr Urdd - Curo 4 gêm o 8.

Twrnament sir dan 16 a than 18 - Llwyddiannus mewn rhai gemau.

Pêl-droed - o dan 16 cyfartal yn erbyn Llanidloes a'r Drenewydd.

Pêl-droed - o dan 15 - Curo Llanfair Caereinion 4 - 1

Cwrs Dyfarnu Pêl-rwyd lefel 1 - Zoe Fleming ac Elen Evans

Tim rygbi o dan 14 - Wedi datblygu fel tim a churo Harlech a Dolgellau.

Twrnament rygbi 10 bob ochr - Blwyddyn 7: 3ydd yn eu grŵp

- Blwyddyn 8: 3ydd yn eu grŵp



YSGOL BRO DDYFI

Tel: (01654 70 2012)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: office@broddyfi-hs.powys.sch.uk

Wefan: www.broddyfi.co.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.